# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 16 Mawrth 2023 am 18.30**
yng Nghanolfan Tregarth

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd David H Roberts
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Dafydd Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce. **Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Anwen Jones, Huw Jones a Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych ar fan welliannau yn yr ardal i geisio arafu traffig a bydden nhw hefo gwell syniad o be allwn nhw ei gynnig yn yr wythnosau nesaf. Dim diweddariad hyd yn hyn.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –**Cadarnhawyd fod cwmni Savills yn edrych i fewn i'r mater, ac mi fydden nhw yn cysylltu yn ôl yn fuan iawn.

3.3 **Llwybr Rhif 3 –** Adroddwyd fod dipyn o dryswch ynglyn a'r llwybr hwn, ac syndod fod y Swyddog Llwybrau bellach yn nodi fod ddim angen gwaith yma. Y Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r Swyddog Llwybrau cyn gynted a bu'r modd er mwyn mynd i wraidd y mater.

3.4 **Drychau traffig -** Y Clerc wedi gwneud cais am ddau drych, un bob ochr, dim diweddariad hyd yn hyn.

3.5 **Lôn y Wern, Tregarth –**Nodwyd y Cyngr. Dafydd Roberts a Sian Beidas fod ychydig o waith clytio wedi ei gwblhau, ond fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Dim gwaith wedi gael ei gwblhau hyd yn hyn, y Clerc i holi am ddiweddariad.

3.6 **Mainc Pentref Llandygai –** Adroddwyd y Clerc efallai bod modd i Gyngor Gwynedd ariannu a gosod mainc newydd yma, ar ôl fod ar rhestr aros ers mis Ionawr 2022. Y Clerc wedi holi Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd – disgwyl am ymateb. Nodwyd fod

Menter Fachwen ddim yn darparu meinciau gyda pren caled oherwydd y cynnydd mewn costau.

**3.7 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** –Y Clerc wedi danfon y llythyr ymlaen at Julie James AS a Sian Gwenllian AS, a gofyn iddynt am eu sylwadau. Dim ymateb hyd yn hyn, y Clerc wedi gofyn am diweddariad.

**3.8 Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –** Nodwyd y Clerc fod hysbysfwrdd newydd metel yn costio oddeutu £1345 + VAT. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i archebu un ar hyn o bryd. Y Clerc i weld os oes modd atgyweririo'r hysbysfwrdd gwreiddiol.

**3.9 Lon Hafodty -** Adroddwyd fod llawer o dyllau ar hyd y ffordd a fod bwlch wedi disgyn – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

**3.10 Llwybrau Cyhoeddus -** Y Clerc wedi holi'r Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd, am fapiau a dogfennau eraill cyn gynted a phosib – nodwyd oedd y Clerc i fod i gyfarfod gyda'r swyddog dydd Gwener, 10fed o Fawrth, ond oedd rhaid gohirio oherwydd y tywydd. Y Clerc i holi'r Swyddog am ddyddiad arall cyn gynted a bu'r modd.

**3.11 Palmant Allt Cerrigllwydion** – Adroddwyd fod llawr o fwsog ar hyd y palmant hwn – y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd – y Clerc hefyd wedi danfon y wybodaeth ymlaen at y Cyng. Beca Roberts, a'i gynnwys yn y rhestr Tim Tacluso – ond cafwyd ymateb fod y tim ddim yn gallu cwblhau'r gwaith, oherwydd nad yw'r gwaith yn ei 'patsh' nhw. Y Clerc i ofyn i David Chales Williams, Rheolwr Tim Tacluso am gyfarfod i drafod y rhaglen waith.

**3.12 Coed ger Modurdai Bro Syr Ifor –** Nodwyd fod y coed ger y modurdai wedi gor-dyfu – y Clerc wedi cysylltu gyda Adra, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi'r Cyng. Beca Roberts os yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2023'

**Cyflwynwyd:** Zurich Municipial – Yswiriant y Cyngor – Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant gyda Zurich, y Clerc i drefnu.

**Cyflwynwyd:** Un Llais Cymru – Aelodaeth 2023-24 – Pendefynwyd ymaelodi eto eleni – y Clerc i drefnu.

**Cyflwynwyd:** Alun Davies – Llechi Barddoniaeth Parc Meurig – Nodwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r prosiect hwn.

**Cyflwynwyd:** Ffurflen gais rhoddion – Carnifal Bethesda 2023 – y Cyngor i ystyried y cais hwn gyda gweddill y ceisiadau.

**5. Rhoddion**

Penderfynwyd gohirio'r eitem hwn tan y cyfarfod nesaf.

**6. Gwaith y mis**

**Bin halen Dob –** Nodwyd fod angen bin newydd yma, y Clerc i holi eto.

**Materion priffyrdd** – Penderfynwyd gwahodd Steffan Jones, Cyngor Gwynedd i gyfarfod er mwyn trafod materion priffyrdd.

**Glanhau cysgodfannau bws** – Y Clerc i ofyn i'r Swyddog Cynnal glanhau'r llochesi bws.

**7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth** – Nodwyd fod cyfarfod mis Mawrth wedi gael ei ohirio.

**Neuadd Goffa –** Nodwyd y Cyng. Mary Hayes fod y Neuadd yn edrych i rhannu'r cyflenwad trydan rhwng y Neuadd ac y Clwb Peldroed. Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts

efallai y bydd modd i Elusen Ogwen helpu gyda hyn, y Cyng. Mary Hayes i rannu'r gwybodaeth gyda pwyllgor y neuadd.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**8.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Chwefror. Derbyniwyd yr adroddiad.

**9. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd cyfarfod Tachwedd 2022 | £210.00 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/25/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/1107/16/LL** | Blas Lon Las, Felin Hen<br>Newid defnydd o adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel swyddfa yn bresennol i uned gosod gwyliau.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C22/1088/16/RC** | Fron Deg Uchaf, Sling<br>Diddymu cytundeb cyfreithiol Adran 106 sy'n cyfyngu defnydd adeilad allanol wedi ei addasu i fod yn dy fforddiadwy o dan caniatâd rhif C11/0051/16/LL.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C23/0030/16/DT** | 33 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai,<br>Cael gwared ar estyniad unllawr to fflat ac adeiladu estyniad unllawr to brig llechi newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0072/16/LL** | Plot C6, Parc Bryn Cegin, Llandegai,<br>Codi adeilad ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1/B2,/B8 (gyda Chownter Masnach mewn unrhyw uned B8) ac adeilad i'w ddefnyddio fel Masnachwr Adeiladwyr (storio, dosbarthu, cownter masnach, swyddfeydd a manwerthu ategol) gyda storfa allanol gysylltiedig, ardal arddangos, mynediad, parcio, goleuadau, ffensys, tirweddu caled a meddal. |

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **11. Ceisiadau Cynllunio** | |
| **C23/0131/16/CC** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Torri onnen sydd wedi ei warchod gan Orchymyn Gwarchod Coed.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C22/1153/16/LL** | Tir gyferbyn Pant yr Ardd, Tregarth<br>Adeiladu 2 annedd ar wahân, trefniadau mynediad newydd a pharcio. Byddai un tŷ ar gael ar y farchnad agored a'r llall yn dŷ fforddiadwy ecwiti ar y cyd.<br>**Penderfyniad:** Gwrthod |

**12. Unrhyw fater brys arall**

**Seddi Gwag –** Derbyniwyd un cais am sedd wag Ward St Anns. Penderfynwyd cyf-ethol Carwyn Edwards fel Cynghorwr yn y ward hwn, y Clerc i lunio llythyr cynnig a'i gwahodd i'r cyfarfod nesaf. Y Clerc i hysbysebu'r 2 sedd wag arall eto.

**Argraffu –** Nodwyd fod llawer o waith argraffu gyda cyfarfodydd wyneb i wyneb – yr aelodau i drio'i gorau i ddod a laptop/tablet gyda nhw i leihau'r angen i argraffu. Yr aelodau i ofyn am copiau papur os oes angen.

**Cyfarfodydd –** Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd rhithiol a wyneb i wyneb bob yn ail – er hwylustod ac i lleihau costau cyfieithu.